

Adroddiad i:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	21 Mawrth 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd
Awdur(on) yr Adroddiad:	Prif Reolwr: Gwella Gwasanaeth a Fflyd / Rheolwr Fflyd
Teitl:	Strategaeth Fflyd Ddrafft

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am Strategaeth Fflyd adolygedig i Gyngor Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Galluogi Aelodau i graffu ar y strategaeth ddrafft fel rhan o'r broses ymgynghori cyn i'r strategaeth gael ei chadarnhau a'i mabwysiadu. Roedd Aelodau wedi gofyn i gael gweld y strategaeth ddrafft er mwyn cael trafodaeth am effaith fflyd y Cyngor ar lefelau carbon.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'r Aelodau yn cefnogi mabwysiadu'r strategaeth ddrafft, yn amodol ar unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n codi o'r drafodaeth Graffu.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r strategaeth ddrafft hon (gweler Atodiad I) yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd y mae'r Cyngor yn ariannu; caffael; cynnal a chadw; a gwaredu ei gerbydau. Mae'n disgrifio sut yr ydym yn gwneud y gweithgareddau hyn ar hyn o bryd, a sut yr ydym yn bwriadu parhau i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn y dyfodol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r strategaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ostwng effaith asedau Cyngor Sir Ddinbych ar lefelau carbon. Gan hynny mae gostwng effaith fflyd y cyngor ar lefelau carbon yn ffrwd waith benodol i'r prosiect er mwyn creu gostyngiad o 15% o leiaf mewn allyriadau carbon o asedau'r Cyngor (adeiladau a fflyd) erbyn 2022 er mwyn helpu i warchod yr amgylchedd. Mae'r prosiect hwn yn cael cefnogaeth ariannol gan ddyraniad cyllid y Cynllun Corfforaethol. Mae'r cyllid yn galluogi'r cyngor i osod pwyntiau gwefru trydan yn ein prif swyddfeydd a'n depos. Yn ei dro bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno cerbydau trydan i'n fflyd. Rydym yn dechrau gyda chynllun peilot cymharol fach o ddau gerbyd trydan ar gyfer y gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, ond mae gennym ddyhead (yn amodol ar gyllid a chanfyddiadau'r cynllun peilot) i gyflwyno hyd at 20 o gerbydau trydan bach yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Telir am y gwaith o osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan gan gyllid y Cynllun Corfforaethol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â phrynu a chynnal a chadw cerbydau fflyd yn cael eu hadfer gan adran y cleient.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Les (gweler Atodiad II) ar ffurf drafft ar hyn o bryd oherwydd bod y strategaeth ei hun ar ffurf drafft. Bydd y strategaeth a'r Asesiad o Effaith ar Les yn cael eu cadarnhau unwaith y byddwn wedi cwblhau'r broses ymgynghori fewnol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad o Effaith ar Les yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol oherwydd ein dyhead i newid (dros amser) i ddefnyddio cerbydau a redir ar danwyddau mwy cynaliadwy, lle bo hynny'n bosibl.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Mae'r papur hwn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori ac yn galluogi'r Pwyllgor Craffu i fod yn rhan o'r broses ymgynghori. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y strategaeth ddrafft hefyd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Mae'r strategaeth yn gosod allan y sefyllfa bresennol ac yn cyfeirio at ddatblygiadau diddorol o ran cerbydau trydan a thanwydd amgen – a bydd eu datblygiad yn help i gefnogi amcanion y Cynllun Corfforaethol. Ni ddylai'r strategaeth amharu ar unrhyw adolygiad o fflyd y cyngor yn y dyfodol fel rhan o broses y gyllideb.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Mae'r strategaeth ei hun yn cynnwys adran am risgiau (adran 7). Y risgiau mwyaf arwyddocaol yn y strategaeth hon yw:
- Mae tanwydd, olew, teiars a darnau ar gyfer cerbydau bob amser yn amodol ar brisiau'r farchnad sy'n effeithio ar ragolygon cyllidebol ar gyfer costau rhedeg y Fflyd yn y dyfodol. Yn fwyaf nodedig mae prisiau cyfnewidiol tanwydd sy'n gysylltiedig â phrisiau olew ac o ganlyniad mae hyn yn cael effaith ar brisiau teiars oherwydd y lefel uchel o olew sydd ynddynt.
 - Mae diogelwch cyflenwadau tanwydd yn cynrychioli risg i barhad busnes. Mae cyflwyno cerbydau trydan i'r fflyd yn helpu ychydig i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â phrinder tanwydd hylif.
 - Byddai colli Trwydded Gweithredwr yn risg ddifrifol i nifer o weithgareddau'r cyngor a'i allu i gyflenwi gwasanaethau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

Swyddog Cyswilt: Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd
706397

Ffôn: 01824